## CYPE(5)-23-20 - Papur i'w nodi 5

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

At|To: Holl Is-Gangellorion Prifysgolion Cymru

Dyddiad | Date: 29 Medi 2020

Pwnc | Subject: **Trefniadau i gefnogi myfyrwyr yn sgil COVID-19**

Annwyl Is-Gangellorion

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn gwneud gwaith craffu ar y camau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch.

Gan ystyried yr heriau diweddar sydd wedi cael llawer o sylw yn yr Alban a Lloegr, ac o ystyried y sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran iechyd y cyhoedd, ysgrifennaf i ofyn am sicrwydd ynghylch y camau y mae eich prifysgolion yn eu cymryd i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi:

- y mesurau COVID-19 rydych chi wedi'u cymryd mewn perthynas â'ch llety eich hun, a sut rydych chi wedi gweithio gyda darparwyr Llety Pwrpasol i Fyfyrwyr (PBSA) a landlordiaid preifat (dalier sylw: cyfeiriwch at y trefniadau ar gyfer y tymor ac yn ystod y gwyliau);
- sut rydych chi'n bwriadu cefnogi – neu wedi bod yn cefnogi – yr holl fyfyrwyr (ar y campws ac oddi ar y campws) sydd wedi gorfod hunanynysu, gan gynnwys sut y byddech chi'n cefnogi niferoedd mawr sy'n hunanynysu ar yr un pryd mewn modd urddasol (h.y. darparu bwyd a diod sy'n bodloni gofynion dietegol, meddyginiaeth, cymorth iechyd meddwl a hanfodion eraill);
- y ddarpariaeth sydd gennych ar waith ar gyfer nodi a mynd i'r afael â chaledi myfyrwyr;
- eich dull o weithio gyda myfyrwyr ar gamau a gweithredoedd COVID-19, gan gynnwys hunanynysu;
- sut rydych chi'n gweithio ac yn integreiddio â'r mecanwaith iechyd y cyhoedd ac argyfyngau sifil yn eich awdurdodau lleol a'ch fforymau gwydnwch lleol (gan gadarnhau hefyd a oes gennych chi gyfleusterau ar y campws i brofi'r myfyrwyr am y feirws);

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

- sut rydych chi wedi ymgysylltu – ac yn ymgysylltu – â'r boblogaeth leol, yn enwedig lle mae gennych chi gampysau mewn awdurdodau lleol gwledig;

- unrhyw argymhellion defnyddiol y credwch y gallai'r Pwyllgor eu gwneud i Lywodraeth Cymru i wella'r gefnogaeth i brifysgolion, staff a myfyrwyr.

O ystyried bod y trefniadau hyn yn rhai brys, mae'r Pwyllgor yn gofyn am ymateb unigol gan bob prifysgol erbyn **hanner dydd ddydd Mercher 7 Hydref 2020.** Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gynnal deialog adeiladol a pharhaus gyda chi mewn perthynas â'r materion hyn, a byddem yn croesawu rhagor o ddiweddariadau pan fydd y wybodaeth berthnasol ar gael.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Addysg, Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

cc.

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru

Dr Dai Lloyd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon